202- Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Man i'r Gogledd-ddwyrain o Aberhonddu, Aberhonddu) (Dileu Cyfyngiad) 202-

Gwnaed **********

Yn dod i rym *********

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd yr A470, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2) a 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Man i'r Gogledd-ddwyrain o Aberhonddu, Aberhonddu) (Dileu Cyfyngiad) 202- a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar **** 202-.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

202- No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A470 Trunk Road (North East Brecon, Brecon) (Derestriction) Order 202-

Made **********

Coming into force **********

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A470 trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(2) and 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have given public notice of their intention to make this Order in accordance with section 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (North East Brecon, Brecon) (Derestriction) Order 202- and this Order comes into force on **** 202-.

Interpretation

2. In this Order—

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A470 Cardiff to Llangurig trunk road.

Derestriction

3. The lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order shall cease to be restricted roads for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

(**1**) 1984 c. 27; sections 82(2) and 83(1) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 59(3) and 60(2). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Dileu cyfyngiad

3. Bydd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffyrdd cyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig ********

Enw
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated *******

Name
Head of Governance and Assurance
Welsh Government

YR ATODLEN

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A470 Man i'r Gogledd-ddwyrain o Aberhonddu sy'n ymestyn o bwynt 93 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r B4602 hyd at bwynt 220 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r de cefnffordd yr A470 Man i'r Gogledd-ddwyrain o Aberhonddu sy'n ymestyn o bwynt 206 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r B4602 hyd at bwynt 95 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno.

SCHEDULE

1. The length of the northbound carriageway of the A470 North East Brecon trunk road that extends from a point 93 metres south of its junction with the B4602 to a point 220 metres north of the same junction.

2. The length of the southbound carriageway of the A470 North East Brecon trunk road that extends from a point 206 metres north of its junction with the B4602 to a point 95 metres south of the same junction.